

HUGHES, HENRY MALDWYN (1875 - 1940), diwinydd a gweinidog Wesleyaidd

Enw: Henry Maldwyn Hughes
Dyddiad geni: 1875
Dyddiad marw: 1940
Priod: Marion Helen Hughes (née Taylor)
Rhiant: Emily Hughes (née Wilcox)
Rhiant: John Hughes
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd a gweinidog Wesleyaidd
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: John James Jones

Ganwyd yn Nhrefeglwys, Sir Drefaldwyn, 17 Medi 1875, mab y **Parch. John Hughes** ('Glanystwyth'). Addysgwyd ef yn ysgol Kingswood, Bath, Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, a Choleg Diwinyddol Didsbury, Manceinion. Graddiodd yn B.A. a D.D. ym Mhrifysgol Llundain. Ordeiniwyd ef i'r weinidogaeth Wesleyaidd yn 1896 a bu'n gweinidogaethu yn Bromyard, Birmingham, Southport, Wallasey, Edinburgh, a Clapham (Llundain). Yn 1921 penodwyd ef yn brifathro cyntaf Wesley House, Caergrawnt. Bu llwyddiant mawr ar ei waith yno, ac anrhydeddwyd ef gan y brifysgol â'r radd o M.A. Pan ymddeolodd o'r swydd yn 1937 gwnaed darlun ohono gan Frank O. Salisbury ar draul awdurdodau Wesley House. Traddododd Ddarlith Fernley yn 1922, ac efe oedd llywydd olaf y gynhadledd Wesleyaidd cyn i'r Wesleyaidd ymuno â'r Methodistiaid eraill. Ei brif weithiau cyhoeddedig oedd: *The Ethics of Jewish Apocryphal Literature*, 1909; *Wesley and Whitefield*, 1912; *Faith and progress*, 1919; *Wesley's standards in the light of today*, 1921; *The Theology of Experience*, 1922; *The Kingdom of God*, 1922; *What is the Atonement?* 1924; *The School of Life*, 1925; *Christian Foundations*, 1927; a *The Christian Idea of God*, 1935. Cyfrannodd hefyd i *Apocrypha and Pseudepigrapha of the Old Testament* (R. H. Charles) ac i *Encyclopaedia of Religion and Ethics* (Hastings). Priododd Marion Helen, merch R. Taylor, Colchester. Bu farw yn ddisyfyd 20 Awst 1940.

Awdur

John James Jones, (1892 - 1957)

Ffynonellau

Who's who?

Yr Eurgrawn Wesleyaidd, 132 (1940)

byrgofiannau yn y Wasg

ei lyfrau cyhoeddedig

Gweithiau

David Gwynfryn Jones a H. Maldwyn Hughes, *Cofiant Glanystwyth sef, Bywyd y diweddar Barch. John Hughes, D.D*(Bangor 1904)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 44213936

Wikidata: Q20733152

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, J. J., (1953). HUGHES, HENRY MALDWYN (1875 - 1940), diwinydd a gweinidog Wesleyaidd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-HUGH-MAL-1875>

Clippwr

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiogel gan
Llywodraeth Cymru
Secured by
Welsh Government